ASTUDIAETHAU ADDYSG

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Astudiaethau Addysg y gallu i:

- Ddeall gwybodaeth ddamcaniaethol a thystiolaeth ymchwil ynghylch prosesau dysgu, gan gynnwys rhai o'r patrymau allweddol a'u heffaith ar arferion addysgol.
- Deall agweddau ar wahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol, a chymdeithasau, polisïau cymdeithasol, gwleidyddol ac addysgol, economeg, nodweddion daearyddol a hanesyddol cymdeithasau a chyd-destunau a sylfeini moesol, crefyddol ac athronyddol a'u heffeithiau ar ddysgu.
- Deall eich systemau addysg eich hun a rhai eraill a'r systemau gwerth sylfaenol.
- Deall y cysylltiadau cymhleth rhwng addysg a'i gyd-destunau a pherthynas gyda disgyblaethau a phroffesiynau eraill.
- Dadansoddi sefyllfaoedd cymhleth sy'n ymwneud â phobl yn dysgu a datblygu mewn cyd-destunau arbennig, gan gynnwys eich dysgu eich hunan.
- Derbyn syniadau newydd sy'n ymwneud â globaleiddio systemau addysg a materion megis cyfiawnder cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, addysg heddwch, cynhwysiant cymdeithasol ac economi gwybodaeth.
- Darparu casgliadau cadarn yn ymwneud â'r prif faterion byd-eang hyn.
- Myfyrio ar eich systemau gwerth, datblygiad ac arferion unigol.
- Cwestiynu cysyniadau a damcaniaethau y daethoch ar eu traws yn eich astudiaethau.
- Mynegi a chyflwyno dadleuon llafar ac ysgrifenedig.
- Defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
- Dehongli a chyflwyno gwybodaeth rifiadol berthnasol.
- Cydweithio ag eraill, o ganlyniad i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol, er mwyn dangos y gallu i gynllunio, rhannu amcanion a gweithio fel aelod o dîm.
- Gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun, gan gynnwys datblygu sgiliau astudio ac ymchwil, adalw gwybodaeth a'r gallu i gynllunio a rheoli'ch dysgu a myfyrio ar eich dysgu eich hun.

Trosolwg o Astudiaethau Addysg

Mae Astudiaethau Addysg yn ymwneud â deall sut mae pobl yn datblygu a dysgu gydol eu bywydau. Mae'n hwyluso astudiaeth o natur gwybodaeth ac ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth o safbwyntiau a ffyrdd o wybod a deall, wedi'u tynnu o amrywiaeth o ddisgyblaethau priodol. Mae cyrsiau gradd Astudiaethau Addysg yn amrywiol ond mae pob un yn cynnwys astudiaeth ddeallusol fanwl o brosesau, systemau a dulliau addysgol a chyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol y maent wedi gwreiddio'n ddwfn ynddynt.

Mae'r rhan fwyaf o raddedigion addysg yn mynd i addysgu, boed hynny'n union ar ôl eu gradd neu ar ôl rhai blynyddoedd o brofiad mewn swyddi eraill. Mae swyddi sy'n cynnig cymorth i blant, pobl ifanc ac oedolion yn ddewisiadau poblogaidd hefyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithwyr cynghori, cynghorwyr gyrfa, cynghorwyr, gweinyddwyr addysg, darlithwyr, mentoriaid dysgu, gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr hyfforddiant a datblygiad a gweithwyr ieuenctid.

Ffynhonnell: CIHE 2006